## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (DERWYDD, MAN I'R GOGLEDD O LANDYBÏE, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2024

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, yn Nerwydd yn Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith) rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A476 yn Ffair-fach i gyfeiriad y de hyd at ei chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr U4401 ar ochr orllewinol croesfan reilffordd Cilyrychen, Llandybïe, Sir Gaerfyrddin.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de fydd mynd ar yr A476 tua'r de-orllewin o Ffair-fach drwy Garmel a Gors-las i Gylchfan Cross Hands, yr A48 tua'r de i Gylchfan Pont Abraham, yna'r A483 tua'r gogledd-ddwyrain drwy Dŷ-croes a Rhydaman i ailymuno â'r A483 tua'r gogledd-orllewin drwy Landybïe hyd at y pwynt cau. I'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd.

Bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol dros nos (rhwng 20:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch) o 13 Mai 2024 hyd 16 Mai 2024 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A483 TRUNK ROAD (DERWYDD, NORTH OF LLANDYBIE, CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2024

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road at Derwydd in the County of Carmarthenshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works) from proceeding on the length of the A483 trunk road that extends from its junction with the A476 at Ffairfach in a southerly direction to its junction with the U4401 unclassified road at the western side of Cilyrychen level crossing, Llandybie, Carmarthenshire.

The alternative route for southbound vehicles is via the south-westbound A476 from Ffairfach through Carmel and Gorslas to Cross Hands Roundabout, the southbound A48 to Pont Abraham Roundabout, then the north-eastbound A483 through Tycroes and Ammanford to re-join the north-westbound A483 through Llandybie to the point of closure. Vice versa for northbound vehicles.

The temporary prohibition, which will be signed accordingly, will operate overnight (20:00 hours to 06:00 hours) from 13 May 2024 until 16 May 2024 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government